# Celf/Art: BA2

Aims:

- To develop your understanding of delivering visual art in the Primary school classroom

Amcanion:

- Datblygu eich dealltwriaeth o gyflwyno celf weledol yn ystafell ddosbarth yr ysgol gynradd.

# Challenge/Her



**What did you notice?**

**Beth sylwaist ti?**



*Jean de Dinteville and Georges de Selve ('The Ambassadors')*, Hans Holbein the younger (c.1497–1543). Image credit: The National Gallery, London

**What did you notice this time?**
**Beth sylwaist di'r tro hwn?**

# The Superpower of Looking

- Close-looking at artworks transforms visual literacy skills
- Discussion-based learning develops oracy and ability to **communicate effectively**
- Supporting students to critically observe, **analyse** and **question** visual media
- Increase students' confidence to use discipline-specific language
- Supporting students' creative agency and decision making in their own artworks
- A wide range of artworks increases **knowledge about their own culture** and **respect for others as members of a diverse society**
- New for 2025: bilingual resources; focus on Welsh artworks




*Pwerdy Ceunant*, Mary Lloyd Jones (b.1934). © the artist. Image credit: By permission of Amgueddfa Cymru – Museum Wales

# Archbŵer yr Edrychiad




*Pwerdy Ceunant*, Mary Lloyd Jones (b.1934). © the artist. Image credit: By permission of Amgueddfa Cymru – Museum Wales

- **Edrych yn fanwl ar weithiau celf** yn trawsnewid sgiliau **llythrennedd gweledol**
- Mae **dysgu ar sail trafodaeth** yn datblygu **llafaredd** a'r gallu i **gyfathrebu'n effeithiol**
- **Cefnogi disgyblion** i arsylwi'n feirniadol, **dadansoddi** ac **holi** cyfryngau gweledol
- **Cynyddu hyder disgyblion** i ddefnyddio **iaith benodol i'r ddisgyblaeth**
- **Cefnogi asiantaeth greadigol disgyblion** a'u **gwneud penderfyniadau** yn eu **gweithiau celf eu hunain**
- Mae **amrywiaeth eang o weithiau celf** yn cynyddu **gwybodaeth am eu diwylliant eu hunain** ac yn **meithrin parch tuag at eraill** fel aelodau o **gymdeithas amrywiol**
- **Newydd ar gyfer 2025: adnoddau dwyieithog**; **ffocws ar weithiau celf Cymreig**

**Why are skills in visual literacy important to teach?**

**Pam mae sgiliau mewn llythrennedd gweledol yn bwysig i’w dysgu?**

## Exploring the expressive arts is essential to developing artistic skills and knowledge and it enables learners to become curious and creative individuals.

| Progression step 1 | Progression step 2 | Progression step 3 |
|---|---|---|
| I can explore and experiment with a variety of creative techniques, materials, processes, resources, tools and technologies. | I can explore and experiment with and then select appropriate creative techniques, practices, materials, processes, resources, tools and technologies. | I can explore and experiment independently and demonstrate technical control with a range of creative materials, processes, resources, tools and technologies showing innovation and resilience.<br><br>I can explore the effects that a range of creative techniques, materials, processes, resources, tools and technologies have on my own and others' creative work. |
| I can ask questions to discover how creative work is made. | I can explore how and why creative work is made by asking questions and developing my own answers. | I can explore how creative work can represent, document, share and celebrate personal, social and cultural identities. |
| I am beginning to explore ideas, feelings and moods in a variety of creative work. | I can explore and describe how artists and creative work communicate mood, feelings and ideas. | I can explore and describe how artists and creative work communicate mood, feelings and ideas and the impact they have on an audience. |

## Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 |
|---|---|---|
| Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol. | Rwy'n gallu archwilio, arbrofi gyda, ac yna ddewis technegau, dulliau, deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol priodol. | Rwy'n gallu archwilio ac arbrofi'n annibynnol, a dangos rheolaeth dechnegol gydag ystod o ddeunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol gan ddangos arloesedd a gwydnwch.<br><br>Rwy'n gallu archwilio'r effeithiau mae ystod o dechnegau, deunyddiau, prosesau, adnoddau, offer a thechnolegau creadigol yn eu cael ar fy ngwaith creadigol fy hun ac eraill. |
| Rwy'n gallu gofyn cwestiynau i ganfod sut y caiff gwaith creadigol ei wneud. | Rwy'n gallu archwilio pam a sut y caiff gwaith creadigol ei wneud trwy ofyn cwestiynau a datblygu fy atebion fy hun. | Rwy'n gallu archwilio sut y gall gwaith creadigol gynrychioli, cofnodi, rhannu a dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol. |
| Rwy'n dechrau archwilio syniadau, teimladau a gwahanol naws mewn amrywiaeth o waith creadigol. | Rwy'n gallu archwilio a disgrifio sut mae artistiaid a gwaith creadigol yn cyfleu gwahanol naws, teimladau a syniadau. | Rwy'n gallu archwilio a disgrifio sut mae artistiaid a gwaith creadigol yn cyfleu gwahanol naws a syniadau, a'r effaith maen nhw'n ei chael ar gynulleidfa. |

## Responding and reflecting, both as artist and audience, is a fundamental part of learning in the expressive arts.

| Progression step 1 | Progression step 2 | Progression step 3 |
|---|---|---|
| I can listen to and respond to views about my own creative work and that of others. | I can give and accept feedback as both artist and audience. | I can give and consider constructive feedback about my own creative work and that of others, reflecting on it and making improvements where necessary. |
| I am beginning to compare my own creative work to the creative work of others. | I can compare my own creative work to creative work by other people and from other places and times. | I can apply knowledge and understanding of context, and make connections between my own creative work and creative work by other people and from other places and times. |
| I am beginning to talk about my moods and emotions and use these to impact upon my creative work. | I can consider, with guidance, how moods, emotions and ideas are communicated both in my own creative work and in the creative work of others. | I can reflect upon how artists have achieved effects or communicated moods, emotions and ideas in their work. |

## Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 |
|---|---|---|
| Rwy'n gallu gwrando ar eraill yn mynegi barn ar fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill ac ymateb iddyn nhw. | Rwy'n gallu rhoi a derbyn adborth fel artist ac fel cynulleidfa. | Rwy'n gallu rhoi ac ystyried adborth adeiladol am fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, gan fyfyrio arno a'i wella yn ôl y gofyn. |
| Rwy'n dechrau cymharu fy ngwaith creadigol gyda gwaith creadigol pobl eraill. | Rwy'n gallu cymharu fy ngwaith creadigol fy hun gyda gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol. | Rwy'n gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun, a gwneud cysylltiadau rhwng fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol. |
| Rwy'n dechrau siarad am fy hwyliau a'm hemosiynau, a defnyddio'r rhain i ddylanwadu ar fy ngwaith creadigol. | Gydag arweiniad, rwy'n gallu ystyried y ffordd y caiff hwyliau, emosiynau a syniadau eu cyfleu yn fy ngwaith creadigol fy hun ac yng ngwaith creadigol pobl eraill. | Rwy'n gallu myfyrio ar y ffordd y mae artistiaid wedi llwyddo i greu effeithiau neu gyfleu hwyliau, emosiynau a syniadau yn eu gwaith. |

## Creating combines skills and knowledge, drawing on the senses, inspiration and imagination.

| Progression step 1 | Progression step 2 | Progression step 3 |
|---|---|---|
| I can communicate my ideas, feelings and memories in my creative work. | I can communicate ideas, feelings and memories for an audience and for purposes and outcomes in my creative work. | I can combine my knowledge, experience and understanding to plan and communicate my creative work for a range of different audiences, purposes and outcomes. |
| I can imitate established artistic techniques in the creation of my own work. | I am beginning to apply techniques in my creative work with guidance and direction. | I can draw upon my familiarity with a range of discipline-specific techniques in my creative work. |
| I am beginning to design my own creative work. | I can create my own designs and work collaboratively with others to develop creative ideas. | I can draw upon my design knowledge and make connections with greater independence to modify and develop my creative designs. |
| I can share my creative work. | I can perform, produce, design, exhibit and share my creative work in a variety of ways for different audiences, inspired by a range of stimuli and experiences. | I can perform, produce, design, exhibit and share my creative work in formal and non-formal contexts, considering the impact of my creative work on the audience. |
| | I am beginning to demonstrate resilience and flexibility in approaching creative challenges. | I can identify and respond creatively to challenges with resilience and flexibility. |

## Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 |
|---|---|---|
| Rwy'n gallu mynegi fy syniadau, teimladau ac atgofion yn fy ngwaith creadigol. | Rwy'n gallu cyfleu syniadau, teimladau ac atgofion ar gyfer cynulleidfa ac ar gyfer dibenion a chanlyniadau yn fy ngwaith creadigol. | Rwy'n gallu cyfuno fy ngwybodaeth, profiad a dealltwriaeth i gynllunio a chyfleu fy ngwaith creadigol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd, dibenion a chanlyniadau. |
| Rwy'n gallu efelychu technegau artistig cydnabyddedig wrth greu fy ngwaith fy hun. | Rwy'n dechrau cymhwyso technegau yn fy ngwaith creadigol gydag arweiniad a chyfarwyddyd. | Rwy'n gallu defnyddio ystod o dechnegau penodol i'r ddisgyblaeth sy'n gyfarwydd i mi, yn fy ngwaith creadigol. |
| Rwy'n dechrau dylunio fy ngwaith creadigol fy hun. | Rwy'n gallu creu fy nyluniadau fy hun, ac rwy'n gallu gweithio ar y cyd gydag eraill i ddatblygu syniadau creadigol. | Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth ddylunio a gwneud cysylltiadau gydag annibyniaeth gynyddol er mwyn addasu a datblygu fy nyluniadau creadigol. |
| Rwy'n gallu rhannu fy ngwaith creadigol. | Rwy'n gallu perfformio, cynhyrchu, dylunio, arddangos a rhannu fy ngwaith creadigol mewn amrywiaeth o ffyrdd ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, a hyn wedi'i ysbrydoli gan ystod o sbardunau a phrofiadau. | Rwy'n gallu perfformio, cynhyrchu, dylunio, arddangos a rhannu fy ngwaith creadigol mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, gan ystyried effaith fy ngwaith creadigol ar y gynulleidfa. |
| | Rwy'n dechrau dangos gwydnwch a hyblygrwydd wrth fynd i'r afael â heriau creadigol. | Rwy'n gallu adnabod ac ymateb yn greadigol i heriau, a gwneud hyn gyda gwydnwch a hyblygrwydd. |




[Art UK | Learn The Superpower of Looking]

# Further reading

**Short read**

Susan Ogier, Visual literacy: the art of noticing
https://artuk.org/discover/stories/visual-literacy-the-art-of-noticing

**Longer read**

Ben Goldstein, Visual literacy in English language teaching
https://www.cambridge.org/cn/files/7015/7488/7845/CambridgePapersInELT_VisualLiteracy_2016_ONLINE.pdf

Shari Tischman, Artful thinking: stronger thinking and learning through the power of art
https://pz.harvard.edu/sites/default/files/ArtfulThinkingFinalReport-1.pdf

**Watch**

Amy Herman, A lesson on looking
https://www.ted.com/talks/amy_herman_a_lesson_on_looking?utm_campaign=tedspread&utm_medium=referral&utm_source=tedcomshare

Check out the Superpower of Looking resources

Teacher Champion Scheme

# THE SUPERPOWER OF LOOKING

ART UK | Freelands Foundation